# Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl Cyngor Celfyddydau Cymru – Swyddi gwag i Aelodau Annibynnol

Rydym yn chwilio am 2 aelod annibynnol i ymuno â'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl. Rhaid i un o leiaf gael profiad ariannol proffesiynol.

Mae'r Pwyllgor fel arfer yn cyfarfod 5 gwaith y flwyddyn. Er mwyn lleihau'r effaith ar yr amgylchedd, mae'r cyfarfodydd yn digwydd ar-lein fel arfer.

Mae'r cyfarfodydd yn parhau am hanner diwrnod yn ystod oriau swyddfa ar ddydd Mercher fel arfer. Mae disgwyl i aelodau o'r pwyllgor hefyd treulio amser yn darllen papurau a gwybodaeth gefndirol y cyfarfod. Ar adegau bydd angen rhagor o amser hefyd o bosibl.

Di-dâl yw'r gwaith ond rydym yn talu costau teithio a chynhaliaeth resymol ar gyfraddau CThEF/Llywodraeth Cymru. Tymor penodol y gwaith yw tair blynedd i gychwyn. Lle bo'n briodol, bydd hyfforddiant perthnasol i aelodau o'r pwyllgor.

## Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl

Er nad oes gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl rymoedd gweithredol, mae'n chwarae rhan bwysig yn ein gwaith drwy gynnig her, cyngor a sicrwydd i'r Cyngor a'i reolwyr i sicrhau rheoleidd-dra, priodoldeb a'r arferion gorau ym mhob maes.

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gefnogi'r Cyngor a'r Swyddog Cyfrifyddu (ein Prif Weithredwr) drwy adolygu pa mor gynhwysfawr a dibynadwy yw ein sicrwydd llywodraethu, ein rheolaeth o berygl, amgylchedd ein rheolaeth a chywirdeb ein datganiadau ariannol a'n hadroddiad blynyddol. Bydd hyn yn hyrwyddo'r safonau uchaf o briodoldeb ac atebolrwydd priodol wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Bydd hefyd yn gyfrifol am fonitro gwaith yr archwilwyr mewnol ac allanol.

Mae cylch gorchwyl llawn y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl ar ein gwefan.

## Am bwy rydym yn chwilio?

Rydym yn chwilio am ddau aelod annibynnol ar gyfer ein Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl. Rhaid i un o leiaf gael profiad ariannol proffesiynol.

Hoffwn gael ymgeiswyr sydd â gwybodaeth dda o waith ariannol, archwilio neu lywodraethu ar lefel uwch a hanes o lwyddo yn y fath swydd.

Bydd gan o leiaf un aelod newydd gymhwyster cydnabyddedig gan Bwyllgor Ymgynghorol y Cyrff Cyfrifyddu (CCAB). Dylai fod gan bob ymgeisydd brofiad perthnasol yn y sector cyhoeddus a/neu elusennol a dealltwriaeth o'r amgylchedd y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddo, gan gynnwys gwybod am anghenion cyfrifeg a llywodraethu.

Hoffwn glywed gan ymgeiswyr sydd â phrofiad o sefydliadau sy'n dosbarthu arian gan gynnwys dosbarthwyr grantiau a phobl sydd â dealltwriaeth gadarn o'r heriau sy'n wynebu sefydliadau cyhoeddus neu drydydd sector.

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am oruchwylio fframwaith llywodraethu'r Cyngor a helpu i fonitro ein buddsoddiad mewn sefydliadau sy'n cael arian amlflwyddyn.

Hoffwn hefyd gael ceisiadau gan rai sydd â phrofiad rheoli uwch, yn ddelfrydol ym maes gwasanaethau proffesiynol mewn sector sydd o fudd i gyhoedd Cymru. Byddai profiad uniongyrchol o reoli newid hefyd o fantais.

Dyma gyfleoedd cynhwysol i ymuno â'n Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl amrywiol yn ddiwylliannol ac ethnig a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys pobl anabl a phobl LHDTC+.

Rhaid i'r ymgeiswyr llwyddiannus fod yn barod i ddod i gyfarfodydd o'r pwyllgor a chymryd rhan ynddynt a chefnogi nodau, gwerthoedd ac amcanion y Cyngor.

Rydym yn gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mae rhuglder yn y Gymraeg (ysgrifenedig a llafar) yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y gwaith.

Rhaid i aelodau o'r pwyllgor ymrwymo i saith egwyddor Nolan mewn bywyd cyhoeddus a bod yn barod i arsylwi a chydymffurfio â'n Cod Arferion Gorau y mae copi i'w weld ar ein gwefan.

## Cyngor Celfyddydau Cymru

Sefydlwyd y Cyngor drwy Siarter Frenhinol ar 30 Mawrth 1994. Ei nod yw cefnogi a datblygu celfyddydau Cymru (yma a thramor) er budd pobl ledled Cymru.

Rydym hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru, Dosbarthwr arian y Loteri Genedlaethol ac elusen gofrestredig (rhif 1034245).

Mae ein Siarter yn nodi ein hamcanion:

- datblygu a gwella gwybodaeth, dealltwriaeth ac ymarfer ym maes y celfyddydau
- cynyddu hygyrchedd y celfyddydau i'r cyhoedd
- gweithio drwy'r Gymraeg a'r Saesneg

Rydym yn cyflawni ein hamcanion drwy ein 6 egwyddor. Maent yn sail i'n cynlluniau strategol a blynyddol.

Rydym hefyd yn gweithio gyda chyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a Chynghorau Celfyddydau eraill y DU i gyflawni ein nodau. Mae copi o'n Siarter ar ein gwefan.

Rydym yn gweithio mewn amgylchedd sydd wedi'i ragnodi a'i reoleiddio'n ofalus. Mae'r Cyngor yn atebol i:

- Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru dros Ddiwylliant a Chyfiawnder Cymdeithasol
- y Prif Chwip
- y Trefnydd

Rhaid inni gadw at y telerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru yn eu gosod am sut i ddefnyddio'r arian cymorth grant y maent yn ei roi inni.

## Ein trefniadau llywodraethu

Y Cyngor yw ein bwrdd ymddiriedolwyr. Mae'n ganddo Gadeirydd a hyd at 17 aelod gydag un ohonynt yn Is-gadeirydd. Dyma ragor am y Cyngor.

Mae'r Cadeirydd yn cael ei dalu am ei waith a Llywodraeth Cymru sy'n pennu'r cyfraddau yn flynyddol. Mae pob aelod arall yn rhoi eu hamser a'u harbenigedd yn wirfoddol ond maent yn cael hawlio treuliau wrth wneud busnes y Cyngor.

Y Cyngor sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol a rheolaeth ein sefydliad. Mae'n gyfrifol am sicrhau, drwy'r Prif Weithredwr, ein bod yn gweithio yn ôl fframwaith polisi Lywodraeth Cymru a bodloni pob atebolrwydd arall sydd gennym. Y Cadeirydd sy'n cadw mewn cysylltiad rheolaidd ag Ysgrifennydd y Cabinet a'r Prif Weithredwr sy'n cwrdd â swyddogion y Llywodraeth bob chwarter i'w diweddaru.

Y Cyngor yw'r corff sy'n cael y gair olaf am benderfyniadau gan gynnwys ar bolisi corfforaethol, ein Fframwaith Strategol, ein Cynlluniau Blynyddol ac unrhyw newid mawr i delerau ac amodau ein staff.

I gefnogi ei waith, penododd y Cyngor dri phwyllgor i ddarparu cyngor arbenigol:

- Y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Perygl
- Pwyllgor y Gymraeg, Diwylliant a Chydraddoldeb
- Y Pwyllgor Adnoddau Dynol a Thâl

Mae hefyd Is-bwyllgor Cyfalaf.

Mae pob un o'r pwyllgorau hyn yn cynnwys aelodau o'r Cyngor, un ohonynt yn gweithredu fel cadeirydd, ac unigolion annibynnol, ac yn gweithredu o dan gylch gorchwyl penodol. Rydym yn penodi aelodau annibynnol o'r pwyllgorau am eu sgiliau a'u profiad arbenigol drwy broses ddewis agored.

Mae pob aelod newydd o'r Cyngor a'r pwyllgorau'n mynd drwy broses sefydlu briodol ac rydym yn eu hannog i barhau â'u datblygiad wedyn.

## Bod yn gymwys: gweithgareddau gwleidyddol ac allanol

Wrth benodi, byddwn yn ystyried gwrthdaro buddiannau hefyd. Byddwn yn trafod rhesymau posibl o wrthdaro gydag ymgeiswyr ar gam priodol.

## Sut mae ymgeisio?

Drwy CV a ffurflen gais (dim mwy na 1500 o eiriau) sy'n sôn am ofynion y gwaith. Gofynnwn hefyd i chi lenwi ffurflen monitro cydraddoldeb. Mae'r ddogfennau yma i'w gweld yn y pecyn recriwtio ar waelod yr hysbyseb ar ein gwefan.

**Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:**

Anfonwch eich cais at: ad@celf.cymru erbyn hanner dydd, **ddydd Llun 21 Hydref 2024**

**Cyfweliad:** Yn ystod yr wythnos o'r **4ydd o Dachwedd 2024**

Bydd proses ddewis 2 gam. Ar ôl didoli'r ffurflenni cais, byddwn yn gwahodd ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer i gyfweliad **yn ystod yr wythnos o'r 4ydd o Dachwedd** yn ein swyddfa ym Mae Caerdydd. Bydd rhagor o wybodaeth yn nes at yr amser.

## Amrywiaeth a Chynhwysiant

Mae'r Cyngor yn gyflogwr cynhwysol. Dymunwn adlewyrchu'r cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu. Rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl a grwpiau diwylliannol ac ethnig amrywiol. Croesawn geisiadau yn y Gymraeg neu'r Saesneg a byddwn yn gohebu â chi yn eich dewis iaith. Ni fydd gwahaniaeth yn y ffordd rydym yn trin ceisiadau Cymraeg a Saesneg. Ein nod yw cymryd camau i sicrhau bod ymgeiswyr yn cael eu dewis am swyddi ar sail eu haddasrwydd yn unig. Os hoffech gyflwyno eich cais mewn fformat arall, fel nodyn llais neu fideo Arwyddeg, cysylltwch â ni yn gyntaf.

*Cynllun anabledd hyderus:*
Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gyflogwr Hyderus o ran Anabledd, sy'n ymroddedig i gyfweld pob ymgeisydd anabl sy'n bodloni gofynion hanfodol y rôl a nodir yn adran 'Am bwy rydym yn chwilio?' yr hysbyseb hon. (O waelod tudalen.1 ymlaen).

## Gwybodaeth bellach
I gael rhagor o wybodaeth a thrafodaeth anffurfiol, cysylltwch â'r Pennaeth Llywodraethu.

Cysylltwch ag ad@celf.cymru os oes unrhyw beth yma'n aneglur neu am unrhyw anghenion hygyrchedd.